



POLISI AMDDIFFYN PLANT

1. Nôd

Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, maent yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc.

2. Egwyddorion.

Mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol swyddogaeth bwysig i adnabod arwyddion o gamdriniaeth am esgeulustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan i alluogi pob disgybl i gyflawni'r canlynol: -

- Bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol
- Cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da
- Teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith ddibynadwy a chariadus o fewn yr ysgol
- Dod yn gymwys i edrych ar eu hól eu hunain a delio gyda byw bob dydd
- Bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth, diwylliant a hil.
- Datblygu sgiliau rhyngpersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Diffiniadau o gamdrin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gamdrin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddiodef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd.

- 1. Camdrin corfforol** – taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn.
(Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio sumptomau iechyd.)
- 2. Cam-drin emosiynol** – trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn.

3. **Cam-drin rhywiol** – gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.
4. **Esgeulustod** - methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn.

Dulliau gweithredu

Bydd y corff llywodraethol yn sicrhau drwy'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant/ Pennaeth fod Protocol Prosesau Mewnol yr ysgol yn cael ei gweithredu'n llawn yn unol â'r canllawiau ar gyfer athrawon a staff ategol yr ysgol (gweler Atodiad 1).

Personau cyfrifol Amddiffyn Plant

Aelodau o'r Llywodraethwyr: **Cadi Jones**

Cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol: **Gwenan Williams**

Bydd y 'person cyfrifol' yn sicrhau bod holl staff sydd yn debygol o ddod i gysylltiad â'r disgyblion yn ymwybodol o broses mewnol yr ysgol yng nghyd-destun Amddiffyn Plant.

Hyfforddiant

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod aelodau o staff yr ysgol yn cael mynediad rheolaidd i hyfforddiant yn y maes Amddiffyn Plant.

Cysylltiad â'r Cwricwlwm

Yn unol â chanllawiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol sicrheir fod elfennau o'r maes Amddiffyn Plant yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r cwricwlwm drwy sicrhau profiadau diddorol ac amrywiol i blant o ran tynnu sylw at sefyllfaoedd peryglus, hawliau'r unigolyn, perthynas ag eraill ac ymateb yn briodol mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Mabwysiadwyd:

Arwyddwyd _____ Llywodraethwyr	Cadeirydd y
_____	Pennaeth
_____	Pennaeth

